

PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 18 MEDI 2019

Yn
bressenol: Cynghorydd Jones(Cadeirydd)

Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Driscoll, Gordon, Hudson,
Jacobsen, Jones-Pritchard a/ac Sattar

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Goddard a Lay

2 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Awst 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

CYNGHORYDD	EITEM	RHESWM
Asghar Ali	51 Llantrisant Street, Cathays	Yn berchen ar eiddo yn y stryd
Iona Gordon	32 Heol y Gadeirlan	Gwrthwynebodd gais blaenorol
Iona Gordon	199/01370/MNR	Gwnaeth sylw negyddol am McDonalds
Jacobsen	18/0128/MNR	Cynghorydd Ward (yn gwrthwynebu)
Jones-Pritchard	19/02031/DCI	Personol

4 : AELODAETH

Nododd y Pwyllgor i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2019 gymeradwyo bod y Cynghorydd Susan Goddard yn cael ei phenodi i'r Pwyllgor hwn.

5 : DEISEBAU

Mae deisebau wedi dod i law mewn cysylltiad â'r ceisiadau canlynol yn unol â Rheol 14.2 y Weithdrefn Cyfarfodydd Pwyllgor. Mae'r deisebwyr wedi cael eu cynghori bod ganddynt hawl i siarad ac mae'r ymgeiswyr/asiantau wedi eu cynghori bod ganddynt hawl i ateb:

- (i) 19/01370/MNR, cyn-safle Ty Glas, 75 Ty Glas Avenue, Llanisien
- (ii) A/19/00057/MNR, cyn-safle The Ty Glas, 75 Ty Glas Avenue,
Llanisien
- (iii) A/19/00058/MNR, cyn-safle Ty Glas, 75 Ty Glas Avenue, Llanisien
- (iv) A/19/00059/MNR, cyn-safle Ty Glas, 75 Ty Glas Avenue, Llanisien
- (v) 18/01028/MJR, 56 Wern Goch West, Llanedern

- (vi) 18/02601/MJR, 32 Heol y Gadeirlan, Pontcanna
- (vii) 19/02178/DCH, Sycamore Lodge, Gabalfa Road, Ystum Taf

Mewn perthynas â (iv) siaradodd y deisebwr ac ni ymatebodd yr ymgeisydd/asiant.

6 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 16 Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

CEISIADAU A GANIATEIR

19/00998/MNR – LLYS-FAEN

WESTWINDS, 4 HEOL Y DELYN

Dymchwel y byngalo sengl â 5 ystafell wely a'r tai allan a chodi tŷ sengl 4 ystafell wely a 2 dŷ pâr 4 ystafell wely, un modurdy dwbl ac ystafelloedd gardd gefn.

19/01938/MNR – CATHAYS

LIDL FOODSTORE, MAINDY ROAD

Amrywio amod 4 12/01620/DCI i newid amseroedd llwytho i'r canlynol: Ni fydd cerbydau danfon yn cyrraedd, gadael, llwytho na dadlwytho rhwng 2200 a 0800 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, caniateir danfoniadau ar ddydd Sul yn unig rhwng 1000 a 1600.

Yn ddarostyngedig i ddiwygiad i Amod 3 sydd i ddarllen:

'Dim ond rhwng 08:00 a 22:00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac ar ddydd Sul rhwng 10:00 a 16:00 y bydd cerbydau danfon yn cyrraedd, gadael, llwytho neu ddadlwytho a dim ond 2 gerbyd a gaiff cyflawni danfoniadau ar ddydd Sul. Dim ond 2 gerbyd a gaiff cyflawni danfoniadau ar ddydd Sul. Caniateir danfoniadau ar ddydd Sul ond am gyfnod dros dro sef 6 mis o ddyddiad y caniatâd a roddir yma. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd danfoniadau gan gerbydau ar ddydd Sul yn dod i ben wedi 6 mis o ddyddiad y caniatâd hwn.

19/02031/DCH – YR EGLWYS NEWYDD

9 KELSTON ROAD

Estyniad o'r glun i'r talcen gyda dormer yn y cefn, estyniad un llawr yng ngefn yr eiddo.

19/02178/DCH – YSTUM TAF

SYCAMORE LODGE, GABALFA ROAD

Amrywio Amod 2 i amnewid darluniau a gymeradwywyd yn flaenorol o dan
17/02612/DCH

Yn amodol ar:-

'Amod ychwanegol ynghylch dileu hawliau Datblygiad a Ganiateir o ran estyniadau a newidiadau i'r to'

Yn amodol ar Amod 2 ychwanegol sydd i ddarllen:

'Er gwaethaf darpariaethau Dosbarthiadau A, B ac C Rhan 1, Atodlen 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2013 (neu unrhyw Orchymyn sy'n diwygio, yn dirymu neu'n ailddeddfu'r Gorchymyn hwnnw) ni chaniateir estyniadau neu newidiadau pellach i'r eiddo ac eithrio'r rhai a gymeradwyir drwy hyn.

A/19/000057/MNR – LLANISIEN

CYN-SAFLE THE TY GLAS, 75 TŶ GLAS AVENUE
Gosod 4 arwydd ffasgia

A/19/000058/MNR – LLANISIEN

CYN-SAFLE THE TY GLAS, 75 TŶ GLAS AVENUE
Gosod 1 arwydd totem rhydd 6m

A/19/000059/MNR – LLANISIEN

CYN-SAFLE THE TY GLAS, 75 TŶ GLAS AVENUE
Gosod arwyddion safle gan gynnwys 4 arwydd rhydd, 1 arwydd baner a 18 arwydd dot.

Yn amodol ar:-

'Dyfarniad Hollt - symud baner am reswm amwynder'

Argymhelliad 1: bod Caniatâd Hysbysebu yn cael ei roi ar gyfer gosod arwyddion safle yn cynnwys '4 Arwydd Rhydd' a '18 Arwydd Dot' yn amodol ar yr amodau canlynol:

1. C03 – Terfynau Amser Statudol – Hysbysebion
2. Mae'r caniatâd yn ymwneud â'r cynlluniau cymeradwy canlynol:
 - 7763-SA-8061-P008 E – Arwyddion Cynllun Safle (ac eithrio Uned Baneri Dwy Ochr)
 - Generig - Disg 10MYA
 - Math Arwydd 24 - Arwydd Sbwriel
 - Math Arwydd 24 - Cilfach â Gorchymyn Parcio 1
 - Math Arwydd 24 - Cilfach â Gorchymyn Parcio 2
 - Math Arwydd 25 - Ildio
 - Math Arwydd 25 - Dim Mynediad
 - Math Arwydd 25 - Croesfan i Gerddwyr

- Rhybudd Edrych i'r Chwith/i'r Dde Traffig yn Nesáu
- 877779A Tudalen 2/3 – Arwydd 1 – Bwrdd Dewislen Ddigidol Dwbl
- 877779A Tudalen 3/3 – Arwydd 2 – Bwrdd Dewislen Ddigidol Sengl

Rheswm: Er mwyn osgoi amheuaeth ynghylch hyd a lled y caniatâd a roddwyd.

Argymhelliad 2: Gwrthod caniatâd hysbysebu ar gyfer gosod arwyddion safle sy'n cynnwys '1 Arwydd Baner' am y rhesymau canlynol:

1. Mae'r arwydd arfaethedig o faint a dyluniad amhriodol ar gyfer yr ardal a byddai'n arwain at doreth o hysbysebion yn tynnu oddi ar amwynder gweledol yr ardal yn groes i gyngor yn Nodyn Cyngor Technegol 7 (Rheoli Hysbysebion Awyr Agored)
2. Mae gwrthod caniatâd yn ymwneud â'r cynlluniau canlynol:
 - 7763-SA-8061-P008 E – Arwyddion Cynllun Safle (i'r graddau y mae'n ymwneud â'r 'Uned Baneri Dwy Ochr Ddwbl')
 - McD/038/2016 – Uned Baneri Erdds

Rheswm: Er mwyn osgoi amheuaeth ynghylch i ba raddau y gwrthodir caniatâd.

Argymhelliad 3: Hysbysu'r ymgeisydd bod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei annog lle bo hynny'n bosibl a dylid ystyried arwyddion dwyieithog.

18/02601/MJR – GLAN YR AFON

32 HEOL Y GADEIRLAN

Addasu 32 Heol y Gadeirlan o swyddfa B1 i 17 o unedau preswyl C3 gan gynnwys dymchwel ac ail-godi estyniad yn y cefn; tirlunio; llefydd parcio; mynediad a gwaith atodol cysylltiedig.

18/02602/MJR – GLAN YR AFON

32 HEOL Y GADEIRLAN

Dymchwel estyniad i'r cefn – Caniatâd Ardal Gadwraeth.

CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

18/01028/MJR – PENTWYN

56 WERN GOCH WEST

Cynnig i ddymchwel siop bresennol a 56 Wern Goch West a chodi datblygiad newydd i greu 11 o fflatiau.

19/00016/MJR – TREGANNA

637 HEOL DDWYREINIOL Y BONT-FAEN

Dymchwel yr adeilad arddangos ceir presennol, ail-leoli'r mynediadau presennol, codi adeilad pedwar/pump llawr i gynnwys 23 fflat fforddiadwy un a dwy ysafell wely ar y llawr 1af a'r 2il, y 3ydd a'r 4ydd llawr, gwaith tirlunio a gwaith atodol.

Yn ddarostyngedig i ddiwygiad i Amod 6 sydd i ddarllen:

'Cyn meddiannu'r fflatiau a ganiateir drwy hyn, darperir storfa feiciau dan do ddiogel ar gyfer o leiaf 27 beic yn unol â lluniad rhif A-00-100E ac mae lluniad trawsadrannol ychwanegol yn dangos mynediad gwastad i'r manau parcio beiciau o'r briffordd wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Cedwir y manau parcio i feiciau a'r mynediad cymeradwy ar ôl hynny.

Yn ddarostyngedig i ddiwygiad i Amod 24 sydd i ddarllen:

'Cyn adeiladu (ac eithrio dymchwel), dylai gwybodaeth am y strategaeth gerbydau arfaethedig ar gyfer ardal y llawr daear a manylion am gyffordd â man croesi ddiwygiedig rhwng y safle a'r briffordd gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo i gynnwys (fel y bo angen) manylion am unrhyw folardiau, gwelliannau i wyneb y ffordd, gwaith i glirio'r adeilad uchod, y man croesi diwygiedig ac adfer y droedffordd. Caiff y manylion hynny eu gweithredu cyn rhoi'r datblygiad i ddefnydd buddiol.

Yn ddarostyngedig i ddiwygiad i Amod 25 sydd i ddarllen:

'Ni chaiff ardal y llawr daear ei defnyddio ar gyfer parcio cerbydau preswylwyr'

19/01370/MNR – LLANISIEN

CYN-SAFLE THE TY GLAS, 75 TŶ GLAS AVENUE

Ad-drefnu'r safle ehangach gan gynnwys parcio a chynllun patio, gosod lôn gofleidiol a chynnwys cefn o ardal storio corrach tŷ a gwaith cysylltiedig ar y safle. Gosod 2 Arddangosiad Trefn Cwsmeriaid a'r cyfyngydd uchder postyn gôl. Newidiadau i'r gweddlluniau gan gynnwys drws mynediad a bythau gyrru thrwyddynt newydd, offer newydd ar y to.

CEISIADAU WEDI'U GWRTHOD

19/01722/MNR – CATHAYS

51 LLANTRISANT STREET

Newidiadau a newid defnydd o C3 i C4, tŷ amlfeddiannaeth 6 ystafell wely.

7 : CEISIADAU WEDI EU PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG -
AWST 2019

Nodwyd

8 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim

9 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 16 HYDREF 2019

Daeth y cyfarfod i ben am 5.46 pm